

Cyflwyniad

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn chwarae rôl hollbwysig ym mywyd pob dinesydd yng Nghymru. Cynghorau sir a bwrdeistref sirol sy'n darparu'r gwasanaethau sy'n addysgu ein plant, yn gofalu am ein henoed, yn gwaredu ein gwastraff ac yn goleuo ein strydoedd. Mae cynghorau cymuned a thref yn darparu cynrychiolaeth lefel gymunedol ac ystod amrywiol o wasanaethau. Fodd bynnag, mae heriau gwirioneddol o hyd mewn llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus eraill y mae llywodraeth leol yn gweithio mewn partneriaeth â nhw. Rydym yn rhannu uchelgais i sicrhau gwasanaethau a darpariaeth gyson ardderchog, ond bydd llai o arian nag o'r blaen ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hyd y gellir rhagweld.

O ystyried cyfraniad llywodraeth leol at gymunedau Cymru a'r angen i gynnal trefniadau effeithiol i hyrwyddo trefniadau llywodraethu partneriaeth da, mae adran 73 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cynllun ("cynllun llywodraeth leol") i bennu sut maent yn bwriadu cynnal a hyrwyddo llywodraeth leol yng Nghymru.

Yn ehangach, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn pennu'r ffyrdd o weithio y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill Cymru eu mabwysiadu er mwyn rhoi'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy ar waith. Mae hyn yn cynnwys pwyslais penodol ar gynnwys, cydweithredu ac integreiddio wrth gyflawni amcanion a nodau llesiant.

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru o dan adran 73 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gyhoeddi adroddiad blynyddol ar sut y rhoddwyd y cynllun llywodraeth leol ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol a chyflwyno copi o'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Wrth adrodd ar y cynllun newydd hwn, byddwn yn ceisio llunio'r adroddiad ar y cyd ag aelodau ac arsylwyr Cyngor Partneriaeth Cymru.

Fel rhan o hyn, mae adran 72 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi y gall Cyngor Partneriaeth Cymru roi cyngor i Weinidogion Cymru ar faterion sy'n effeithio ar y broses o weithredu unrhyw un o'u swyddogaethau, gwneud sylwadau i Weinidogion Cymru ynghylch materion sy'n effeithio ar lywodraeth leol a rhoi cyngor i'r sawl sy'n rhan o lywodraeth leol yng Nghymru. Felly, mae'r Cyngor Partneriaeth yn cynnig fforwm ar gyfer cydweithrediad gan Weinidogion Cymru a llywodraeth leol er mwyn hyrwyddo materion trawsbynciol pwysig a cheisio cytuno ar sut y gallant wella canlyniadau i ddinasyddion yng Nghymru.

Cadeirir Cyngor Partneriaeth Cymru gan Ysgrifennydd y Cabinet sy'n gyfrifol am lywodraeth leol neu un o Weinidogion eraill Cymru a enwebir gan Ysgrifennydd y Cabinet.

Ei gyfrifoldebau allweddol yw annog deialog rhwng Gweinidogion Cymru a llywodraeth leol ar faterion sy'n effeithio ar lywodraeth leol yng Nghymru, yn

unol ag Adrannau 72 a 73 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; a darparu atebolrwydd gwleidyddol am weithredu er mwyn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus. (At ddibenion adrannau 72 a 73, mae awdurdodau lleol yn cynnwys cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned yng Nghymru, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar gyfer Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, comisiynwyr heddlu a throseddu ar gyfer ardaloedd heddlu yng Nghymru ac awdurdodau tân ac achub ar gyfer ardaloedd yng Nghymru).

Mae aelodau presennol y Cyngor yn cynnwys holl Ysgrifenyddion Cabinet, Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion Cymru (sy'n mynychu fel y bo'n briodol). Penodir hyd at wyth aelod cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol gan aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC); un aelod i gynrychioli Cynghorau Cymuned a Thref gan Un Llais Cymru; un aelod o'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol; un Comisiynydd Heddlu a Throseddu; un aelod o'r Awdurdodau Tân ac Achub; ac un aelod o'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru. Mae swyddogion CLILC, Un Llais Cymru, SAC, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a TUC Cymru hefyd yn rhan o'r Cyngor fel sylwedyddion.

1 Rolau a Chyfrifoldebau a Rennir

- 1.1 Mae deall rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol a'r gydberthynas rhyngddynt yn hollbwysig i'r bartneriaeth. Drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf"), rydym yn rhannu nodau cyffredin ar gyfer gwneud Cymru yn lle gwell i fyw. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd wrth barchu rolau a chyfrifoldebau ein gilydd a chydabod dilysrwydd dulliau gweithredu gwahanol, gan ddibynnu ar amgylchiadau ac angen.
- 1.2 Mae'r Ddeddf yn ailddiffinio'r telerau y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â nhw er mwyn gwella llesiant pobl a chymunedau yng Nghymru. Diben y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a mabwysiadu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig.
- 1.3 Wrth wneud penderfyniadau, bydd angen i bob corff cyhoeddus y mae'r Ddeddf yn berthnasol iddo ystyried yr effaith y gallai'r penderfyniadau hynny ei chael ar bobl a fydd yn byw yng Nghymru yn y dyfodol. Er mwyn sicrhau bod pob un ohonom yn anelu at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant. Nid dim ond mater o weithio er mwyn cyflawni un neu ddau o'r nodau hyn mohono: bydd angen i gyrff cyhoeddus ystyried sut y gallant gael yr effaith gadarnhaol fwyaf posibl ar bob un ohonynt.
- 1.4 Dim ond drwy weithio mewn ffyrdd newydd y gellir mynd i'r afael â'r materion rydym yn eu hwynebu. Yng Nghymru, rydym yn ffodus bod gennym y gyfraith newydd hon i'n helpu gyda'r newid angenrheidiol. Mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus y mae'r Ddeddf yn berthnasol iddo ddatblygu amcanion llesiant sy'n pennu sut y bydd y corff hwnnw'n gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i'r nodau llesiant.
- 1.5 Wrth weithio tuag at gyflawni'r saith nod llesiant, byddwn yn cydweithredu er mwyn cyflawni ein cyfrifoldeb ar y cyd fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, i gymryd camau i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, gan sicrhau y rhoddir ystyriaeth i gydraddoldeb a thegwch drwy gydol y broses gwneud penderfyniadau.

2 Rôl Llywodraeth Cymru

- 2.1 Llywodraeth Cymru yw llywodraeth genedlaethol, ddatganoledig Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio, gan gynnwys gydag eraill, i wella bywydau pobl yng Nghymru a gwneud ein gwlad yn lle gwell i fyw a gweithio ynddi. Mae'n rhoi'r canlynol:

- arweinyddiaeth ddemocrataidd genedlaethol;

- y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer llawer o feysydd polisi allweddol;
- sefydlu a chynnal system iach o ddemocratiaeth gynrychioliadol;
- polisiâu a rhaglenni sy'n cyfrannu at y nodau llesiant;
- amodau, drwy systemau deddfwriaethol, ariannol a chyflawni, er mwyn galluogi llywodraeth leol a sefydliadau eraill i wella ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau cyhoeddus yn barhaus;
- ymgysylltu â dinasyddion a chymunedau, partneriaid gwasanaethau cyhoeddus, busnesau a'r trydydd sector er mwyn sicrhau bod polisiâu a rhaglenni'n cael eu cynllunio'n dda a'u cyflwyno'n effeithiol; a
- hyrwyddo arfer da, arloesedd a chydweithredu.

2.2 *Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol* a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017. Mae'n nodi ein nod hirdymor o adeiladu Cymru ffyniannus a diogel, iach ac egnïol, uchelgeisiol ac sy'n dysgu, unedig a chysylltiedig. Diben y Strategaeth yw cyfeirio egni ac adnoddau'r holl wasanaeth cyhoeddus yn well tuag at fynd i'r afael â'r heriau mwyaf sylfaenol y mae'r wlad yn eu hwynebu. Mae'n hyrwyddo ffordd hynod wahanol o weithio, ffordd o weithio sy'n adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

3 Rôl Llywodraeth Leol

3.1 Mae awdurdodau lleol yn chwarae rôl ganolog yn y gwaith o lywodraethu Cymru gan eu bod yn darparu'r arweinyddiaeth leol a'r gwasanaethau angenrheidiol ar gyfer eu cymunedau. Mae cynghorau sir a bwrdeistref sirol yn gweithio gydag ystod o bartneriaid lleol a chenedlaethol a chyda dinasyddion a chymunedau i ddarparu cynrychiolaeth ddemocrataidd, cyflwyno gwasanaethau lleol a llywio lleoedd. Maent yn:

- darparu arweinyddiaeth gymunedol a democrataidd leol, gan helpu cymunedau i ddiffinio'r hyn y maent yn dyheu am ei weld yn y dyfodol yng nghyd-destun nodau ac amcanion llesiant cenedlaethol;
- comisiynu a chyflwyno ystod o wasanaethau dewisol a statudol;
- cyflawni ystod o ddyletswyddau a swyddogaethau statudol;
- cyflwyno polisiâu a rhaglenni mewn perthynas â blaenoriaethau lleol sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl leol;

- cyflwyno rhaglenni rhanbarthol a/neu genedlaethol yn lleol (gan weithio gyda phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus, pobl leol ac eraill) er mwyn sicrhau bod y rhaglenni'n cael eu cynllunio a'u cyflwyno'n effeithiol; a nodi lle y gall fod angen y fath raglenni;
- arwain gwasanaethau neu weithgareddau penodol yn rhanbarthol neu'n genedlaethol ar ran cyngorau sir/cyngorau bwrdeistref sirol a / neu bartneriaid gwasanaethau cyhoeddus ehangach;
- cydweithredu ag eraill i gyflwyno gwasanaethau integredig er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau iawn yn cael eu cyflwyno gan y sefydliad iawn am y pris iawn a'r ansawdd iawn.

3.2 Mae cyngorau cymuned (yn cynnwys cyngorau tref) yn rhan annatod o lywodraeth leol. Nhw sydd agosaf at bobl a chymunedau lleol ac maent yn gweithio gyda chynghorau sir a bwrdeistref sirol a phartneriaid eraill er mwyn gwella llesiant eu hardal. Yng Nghymru, mae 735 o gynghorau cymuned sy'n cwmpasu 70% o'r boblogaeth. Lle maent ar waith, maent yn darparu'r canlynol:

- arweinyddiaeth gymunedol a democrataidd;
- ystod/nifer gynyddol o wasanaethau ac asedau lleol;
- cydweithredu ag eraill, gan weithio gyda phartneriaid a chymunedau er mwyn creu dyfodol cynaliadwy.

4 Cyflawni Blaenoriaethau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol

4.1 Rhoddodd Symud Cymru Ymlaen eglurder uniongyrchol i addewidion Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfnod pum mlynedd y Cynulliad hwn ac ymrwymiad i ffordd wahanol o weithio. Mae'n nodi *beth* y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gyflawni ar gyfer Cymru yn ystod cyfnod y Cynulliad hwn.

4.2 Ffyniant i Bawb: mae'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi *sut* y byddwn yn cyflawni ar gyfer Cymru yn ystod cyfnod y Cynulliad hwn ac yn nodi'r sylfeini hirdymor ar gyfer y dyfodol. Mae wedi'i chyhoeddi er mwyn cyfeirio egni ac adnoddau'r holl wasanaeth cyhoeddus yn well tuag at fynd i'r afael â'r heriau mwyaf sylfaenol y mae'r genedl yn eu hwynebu. Mae'n nodi nod hirdymor Llywodraeth Cymru, sef adeiladu Cymru ffyniannus a diogel, iach ac egniol, uchelgeisiol ac sy'n dysgu, unedig a chysylltiedig. Mae'n hyrwyddo ffordd hynod wahanol o weithio, ffordd o weithio sy'n adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

4.3 Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn defnyddio pedair thema allweddol Symud Cymru Ymlaen ac yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer pob thema, gan ddangos sut y byddant yn cyfrannu at ffyniant i bawb, a sut y gall cyflawni mewn ffordd fwy integredig a chydweithredol wella llesiant pobl Cymru.

- 4.4 Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn mynd ati i nodi pum maes y gwelwyd eu bod yn cyfrannu fwyaf at ffyniant a llesiant hirdymor. Maent yn adlewyrchu'r adegau ym mywydau pobl lle y gallai fod angen cymorth arnynt fwyaf, a phan all yr help cywir gael effaith ddramatig ar eu bywydau. Maent fel a ganlyn:
- Y blynyddoedd cynnar
 - Tai
 - Gofal cymdeithasol
 - Iechyd meddwl
 - Sgiliau a chyflogadwyedd
- 4.5 Maent yn feysydd blaenoriaeth lle y dangoswyd bod ymyriad cynnar – mynd i'r afael â'r gwir achosion, yn hytrach na thrin y symptomau – yn talu ar ei ganfed. Dim ond ymateb cydgysylltiedig llawn gan y gwasanaethau cyhoeddus all atal problemau rhag gwaethygu. Er mwyn gwireddu potensial llawn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yna mae integreiddio a chydweithredu rhwng gwasanaethau, gydag ymyriad cynnar a dull sy'n canolbwyntio ar bobl, yn hanfodol er mwyn cyflawni canlyniadau hirdymor.
- 4.6 Mae gan lywodraeth leol flaenoriaethau lleol hefyd sy'n ceisio diwallu anghenion ei phobl a'i chymunedau lleol. Mae cynghorau sir a bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned yn ymrwymedig i bennu sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd er lles cymunedau lleol; fe'u hanogir i lunio siarteri er mwyn diffinio sut y byddant yn rhyngweithio â'i gilydd, yn ymgynghori ar faterion sy'n peri pryder i'r naill ochr a'r llall, ac yn rhannu gwybodaeth.
- 4.7 Mae llywodraeth leol yng Nghymru yn gyfrifol am ddatblygu, cynllunio a darparu ystod eang o wasanaethau statudol a gallant ddarparu amrywiaeth o wasanaethau dewisol hefyd. Mae cynghorau sir a bwrdeistref sirol yn gyfranogwyr allweddol mewn partneriaethau lleol drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a threfniadau ffurfiol eraill. Maent hefyd yn darparu arweinyddiaeth strategol gref ar gyfer eu cymunedau drwy'r systemau hyn.
- 4.8 Mae cynghorwyr lleol, mewn cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned, yn cynrychioli uchelgeisiau a dyheadau eu cymuned leol ac yn siarad o'i phlaid. Maent hefyd yn dwyn y rhai sy'n gyfrifol am benderfyniadau ynghylch gwasanaethau a chyflwyno gwasanaethau i gyfrif, gan sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion pobl a chymunedau lleol. Mae'n rhaid i gynghorwyr gynrychioli eu cymunedau, ond dylent hefyd fod yn gynrychioliadol o'u cymunedau.
- 4.9 Mae cynghorwyr cymuned a thref mewn sefyllfa unigryw i helpu i feithrin cadernid a hybu adfywiad mewn ardaloedd drwy ddeall cryfderau ac asedau cymunedau, a mynd ati i ymgysylltu â dinasyddion lleol a busnesau lleol i'w helpu i nodi uchelgeisiau ac anghenion lleol a'u diwallu. Mae cynghorau cymuned a thref yn darparu'r gwasanaethau hynny sy'n gallu cael effaith sylweddol ar lesiant unigolyn.

- 4.10 O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, cyflwynwyd rheoliadau yn 2011 er mwyn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn well. Mae hyn yn sicrhau y caiff cydraddoldeb a thegwch eu hystyried drwy gydol y broses gwneud penderfyniadau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gymryd dull gweithredu gwahanol at weithio. Mae'n gofyn i wasanaethau cyhoeddus ddefnyddio dull mwy cyfannol wrth wneud penderfyniadau, gan ystyried pethau o safbwynt llawer ehangach. Mae hefyd yn gofyn iddynt gydnabod y gyd-ddibyniaeth sy'n bodoli, a phwysigrwydd cydweithio a gweithio gyda dinasyddion.
- 4.11 Ni ddylid gweithio'n rhanbarthol dim ond er mwyn gwneud hynny, ond weithiau byddai'n well ystyried swyddogaeth, maes gwasanaeth neu weithgaredd yn rhanbarthol – er enghraifft er mwyn gwella cadernid gwasanaeth; meithrin gallu a galluogrwydd; cynnig arbedion maint neu arbedion effeithiolrwydd gwell; a sicrhau bod modd integreiddio gwasanaethau'n fwy effeithiol. Y prawf craidd yw a fyddai gwneud hynny'n gwella neu'n cynnal canlyniadau i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu.
- 4.12 Lle mae trefniadau gweithio'n rhanbarthol ar waith, mae'n bwysig bod trefniadau llywodraethu a goruchwylio democrataidd cryf hefyd, gan gynnwys craffu. Bydd hefyd yn bwysig sicrhau bod dinasyddion a chymunedau'n glir ynghylch sut y gwneir penderfyniadau a sut y gallant ddylanwadu a chyfrannu at benderfyniadau. Bydd rôl aelod etholedig mewn prif gynghorau'n hanfodol yn hyn o beth.
- 4.13 Yn ogystal â gweithio gyda'n gilydd yn rhanbarthol, bydd hefyd yn bwysig bod llywodraeth leol yn ymatebol i ddinasyddion a chymunedau unigol, gan sicrhau bod cymunedau lleol yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli'n effeithiol. Mae gan gynghorau sir a bwrdeistref sirol a chynghorau tref a chymuned rôl bwysig iawn i'w chwarae

5 Cydberthnasau Cadarnhaol a Chynhyrchiol

- 5.1 Rydym wedi dysgu o brofiad bod rhyngweithio rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol wedi bod yn llawer rhy gymhleth. Er enghraifft, mae trefniadau statudol, ariannol ac atebolrwydd yn amrywio rhwng gwasanaethau awdurdodau lleol. Mae gennym gyfle i gymryd dull gweithredu mwy strategol a phenderfynu ar yr hyn y mae angen i ni ei gyflawni drwy'r trefniadau partneriaeth diwygiedig. Mae'n gyfle i ystyried sut y dylai rolau gyd-fynd â'i gilydd.

- 5.2 Byddwn yn achub ar y cyfle i feithrin cydberthnasau newydd, llawn ymddiriedaeth rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gliriach ynghylch pethau allweddol sydd o bwys ac yn llai rhagnodol ynghylch sut mae'n cael ei wneud. Lle y bo'n bosibl a chan barchu cyfrinachedd masnachol, bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu arweinwyr awdurdod lleol, yn gyfrinachol, am benderfyniadau pwysig a buddsoddiadau sy'n effeithio ar eu hardal leol, cyn iddynt gael eu cyhoeddi'n swyddogol.
- 5.3 Bydd y gydberthynas newydd hefyd yn helpu i sefydlu dull darbodus o gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus - lle canolbwyntir ar wneud y defnydd mwyaf effeithiol o asedau cyhoeddus, cyd-lunio, isgyfeirio, sicrhau yr ymyrrir cyn lleied â phosibl ac osgoi creu dibyniaeth – gan annog cymunedau i chwarae mwy o rôl yn eu dyfodol eu hunain. Nodwedd allweddol ar hyn fydd mwy o integreiddio wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus.
- 5.4 Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu ymrwymiad â llywodraeth leol i weithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector a sefydliadau busnes. Bydd rolau'r sector gwirfoddol, y trydydd sector a busnesau yn bwysig wrth gyflwyno'r math hwn o waith partneriaeth. Pennwyd y dull gweithredu hwn yn "Partneriaeth a Rheoli Newid", cytundeb partneriaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
- 5.5 Hefyd, er nad yw plismona wedi'i ddatganoli yng Nghymru, mae gan Lywodraeth Cymru gydberthynas waith dda o hyd â'r pedwar prif heddlu yng Nghymru. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn cael cyfarfodydd rheolaidd â'r pedwar Prif Gwnstabl a'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd.
- 5.6 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhannu ymrwymiad â llywodraeth leol i greu democratiaeth dryloyw a modern sy'n agored ac yn gyfranogol, lle y caiff polisi ei ddatblygu a'i werthuso'n agored ac mewn partneriaeth er mwyn diwallu anghenion a dyheadau pobl Cymru.

6 Fframwaith Ariannol

- 6.1 Rydym am ddatblygu cydberthynas aeddfetach o ran cyllido.
- 6.2 Rydym yn ymrwymedig i ddatblygu fframwaith ariannol er mwyn cefnogi llywodraeth leol i fod yn fwy cynaliadwy a hunangynhaliol, gan roi'r lle iddi arwain, cymryd mwy o gyfrifoldeb a derbyn mwy o berchenogaeth. Mae hyn yn cynnwys:
- lle y bo modd, sôn am gyllid yn y dyfodol er mwyn cefnogi cynlluniau ariannol tymor canolig;
 - rhoi mwy o hyblygrwydd o ran yr amodau sy'n llywodraethu'r defnydd o gyllid Llywodraeth Cymru;
 - symleiddio trefniadau gweinyddu grantiau;

- bod yn glir ynghylch goblygiadau cost unrhyw fentrau neu ddeddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru a sut y cânt eu hariannu.
- 6.3 Gall llywodraeth leol helpu gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau i fod yn fwy cynaliadwy drwy symud adnoddau i weithgarwch ataliol, gan fynd i'r afael ag achosion yn lle symptomau.
- 6.4 Rydym am roi'r adnoddau ariannol angenrheidiol i lywodraeth leol a'i galluogi i'w defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion a rennir gennym.
- 6.5 Byddwn yn parhau i adeiladu ar y trefniadau ymgynghori presennol â llywodraeth leol ynghylch cyllid a materion cyllido, sef Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru a'i weithgorau technegol, yr Is-grŵp Dosbarthu a'r Grŵp Cyllid Cyfalaf a Buddsoddi, er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried y ffordd orau o sicrhau bod y fframwaith ariannol yn cefnogi ac yn cynnal cadernid a chynaliadwyedd gwasanaethau, gan gynnwys drwy fwy o gydweithredu.

7 Gwella'r Broses o Lunio Polisiâu

- 7.1 Dylai'r broses o lunio polisiâu ar y cyd arwain at fentrau gwell, cryfach a mwy uchelgeisiol a berchenogir drwy'r gadwyn gyflwyno.
- 7.2 O ran y gydberthynas rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, bydd gofyn am ymgysylltu ystyrlon ym mhob maes polisi. Bydd angen i Lywodraeth Cymru gynnwys llywodraeth leol, ar lefelau gwleidyddol a swyddogol, mewn trafodaethau ar yr adeg briodol. Yn ei thro, bydd angen i lywodraeth leol ddarparu cynrychiolwyr a phobl briodol, profiadol a medrus i gymryd rhan mewn trafodaethau a gwneud penderfyniadau ar ran y sector.
- 7.3 Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda llywodraeth leol i ddatblygu trefniadau deddfwriaethol cadarn er mwyn sicrhau llywodraethu da a threfniadau atebolrwydd cydlynol. Bydd hyn yn cynnwys hyrwyddo gwelliant hunanarweiniedig a gwelliant a arweinir gan y sector, gyda hunanasesiadau ac asesiadau gan gymheiriaid o drefniadau llywodraethu'n cyfrannu at wasanaethau o ansawdd uchel a gwerth am arian. Dylai cyrff archwilio ac arolygu ychwanegu gwerth a dylent gydweithio, mewn ffordd gymesur ac effeithlon er mwyn helpu i wella gwasanaethau a chyflawni gwerth am arian.
- 7.4 Dylai ymgynghoriadau a gynhelir gan Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol fod mor gydgysylltiedig ag y bo modd, gan leihau'r baich ar y rhai yr ymgysylltir â nhw, yn ogystal â rhyddhau adnoddau a allai gael eu hailgyfeirio at wasanaethau rheng flaen.

8 Ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol

- 8.1 Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol er mwyn sicrhau cyswllt mynych ac amserol rhwng pob rhan o Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol ar lefelau aelodau etholedig a swyddogion.
- 8.2 Mae'r Cyngor Partneriaeth yn darparu'r ymrwymiad statudol i waith partneriaeth. Fodd bynnag, o ddydd i ddydd, eir ati i ymgysylltu drwy awdurdodau lleol, yn unigol ac ar y cyd a thrwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru neu Un Llais Cymru, fel sy'n briodol.
- 8.3 Mae cynghorau sir a bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned a thref wedi sefydlu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru er mwyn rhoi llais cyfunol, cynrychioliadol ar gyfer eu haelodau a darparu rhyngwyneb er mwyn helpu i gydlynu barn a chefnogi deialog rhwng Llywodraeth Cymru ac ystod o randdeiliaid amrywiol.
- 8.4 Mae CLILC yn sefydliad trawsbleidiol a arweinir yn wleidyddol, gydag arweinwyr yr holl gynghorau sir a bwrdeistref sirol yn penderfynu ar bolisiau drwy'r Bwrdd Gweithredol a Chyngor ehangach CLILC. Mae CLILC hefyd yn penodi uwch-aelodau fel Llefarywyr a Dirprwy Llefarywyr i arwain yn genedlaethol ar faterion polisi ar ran llywodraeth leol.
- 8.5 Bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at lunio polisiau a deddfwriaeth ar y cyd gydag effaith ar lywodraeth leol. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu ag awdurdodau lleol a gweithio gyda'r systemau cynrychioliadol a sefydlwyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a thrwyddynt yn enwedig ar faterion llywodraeth leol â goblygiadau deddfwriaethol, cenedlaethol neu bolisi strategol, er enghraifft:
 - Y Cyngor Partneriaeth a'i is-grwpiau
 - Cyfarfodydd dwyochrog rhwng Ysgrifenyddion Cabinet a Gweinidogion Cymru a Llefarywyr CLILC
 - Cyfarfodydd rhwng Ysgrifenyddion Cabinet a Gweinidogion Cymru a Bwrdd Gweithredol CLILC, Cyngor CLILC neu gyfarfodydd rhwydweithiau Aelodau'r Cabinet a gynullir gan CLILC.
- 8.6 O ran llunio ar y cyd, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cymorth llywodraeth leol wrth ddatblygu polisiau a chanllawiau ar gyfer llywodraeth leol, ac wrth ddarparu mesurau i alluogi awdurdodau i weithredu deddfwriaeth newydd yn effeithiol ac yn gyson. Yn yr un modd, bydd llywodraeth leol yn cynnig cyngor, arbenigedd ac ymrwymiad i greu cynigion a fydd yn gweithio ac yn ymrwymo i'w cyflawni.
- 8.7 Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chymdeithasau cynrychioliadol llywodraeth leol er mwyn sicrhau bod cymeradwyaeth wleidyddol 'mewn egwyddor' i archwilio cynigion polisi cyn datblygu rhagor o fanylion a sicrhau ymgysylltiad priodol gan weithwyr proffesiynol llywodraeth leol perthnasol. Bydd Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn rhannu proses adolygu a datblygu polisiau drwy weithgorau o aelodau a/neu swyddogion

Ile y bo'n briodol. Mae ymrwymiad a rennir i barchu cyfrinachedd gwybodaeth.

- 8.8 Bydd Llywodraeth Cymru a'r cymdeithasau llywodraeth leol yn rhoi gwybod i'w gilydd am eu gweithgareddau, eu cynigion a'u polisïau. Byddant hefyd yn rhannu adroddiadau ymchwil a dadansoddiadau eraill, lle y byddant ar gael ac yn berthnasol, sy'n darparu'r sail dystiolaeth ar gyfer cynigion polisi.
- 8.9 Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â chymdeithasau cynrychioliadol llywodraeth leol Cymru (hynny yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru - a chyrff a chynrychiolwyr awdurdodau'r heddlu, y gwasanaethau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol) ar bob mater sy'n peri pryder cyffredin sy'n effeithio ar lywodraeth leol (ac eithrio materion sy'n ymwneud â diogelwch cenedlaethol a chynigion sy'n effeithio ar rai awdurdodau yn unig). O ran materion polisi pwysig, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgynghori â chynghorau unigol ar faterion sy'n ymwneud â'u swyddogaethau. Caiff y broses ymgynghori hon ei chynnal cyn gynted ag y bo modd, gan gydnabod cyfyngiad cyfrinachedd priodol ar gamau cynnar yn y broses o lunio polisïau.
- 8.10 Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol llawn, agored a thryloyw fel rhan o waith ymgysylltu ehangach parhaus yn unol â'r ffyrdd o weithio a bennwyd yn y Ddeddf. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth briodol i farn llywodraeth leol a bydd yn gwerthfawrogi ei phrofiad wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar lywodraeth leol. Cynhelir unrhyw ymgynghoriad ffurfiol yn unol â chanllawiau ymgynghori Llywodraeth Cymru.
- 8.11 Bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at rannu datganiadau i'r wasg a datganiadau cyhoeddus ynghylch llywodraeth leol â'r cymdeithasau sy'n cynrychioli llywodraeth leol yng Nghymru cyn eu rhannu â'r cyfryngau. Os nad yw'n bosibl rhannu testun llawn unrhyw ddatganiad o'r fath, bydd swyddfa wasg Llywodraeth Cymru yn cysylltu â'r bobl angenrheidiol i roi gwybod iddynt am amser cyhoeddi datganiad a'r hyn y mae'n debygol o'i gynnwys.
- 8.12 Caiff datganiadau i'r wasg a datganiadau cyhoeddus sy'n ymwneud ag awdurdod lleol unigol neu ei ardal ddaearyddol eu rhannu â swyddog y wasg neu swyddog priodol arall yr awdurdod hwnnw cyn eu rhannu â'r cyfryngau.
- 8.13 Lle y gwneir datganiadau cyhoeddus sy'n ymwneud â chydweithrediad ar bolisïau, cyhoeddiadau neu brosiectau, gellir defnyddio datganiad ar y cyd sy'n ymgorffori sylwadau gan Lywodraeth Cymru a'r gymdeithas berthnasol lle y bo'n briodol yn lle datganiadau i'r wasg ategol.

- 8.14 Bydd cymdeithasau sy'n cynrychioli llywodraeth leol yng Nghymru yn mabwysiadu trefniadau dwyochrog gyda Llywodraeth Cymru.
- 8.15 Lle y bydd Ysgrifennydd Cabinet neu un o Weinidogion Cymru yn ymweld mewn rhinwedd swyddogol â safle y mae sir neu fwrdeistref sirol yn berchen arno megis ysgol, bydd arweinydd a phrif weithredwr yr awdurdod neu'r prif swyddog perthnasol yn cael gwybod ymlaen llaw. Byddai trefniadau tebyg hefyd yn berthnasol ar gyfer ymweliad â chyfleuster y mae cyngor cymuned neu dref yn berchen arno.

9. Adrodd ar y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol a'i Adolygu

- 9.1 Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad blynyddol ar sut y gweithredwyd y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol yn ystod y flwyddyn ariannol ac yn cyflwyno'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 9.2 Caiff yr adroddiad blynyddol drafft ei lunio ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol a chaiff ei rannu â'r cymdeithasau sy'n cynrychioli llywodraeth leol cyn i'r Cyngor Partneriaeth ei ystyried. Yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor Partneriaeth, caiff yr adroddiad blynyddol ei gyflwyno.
- 9.3 Bydd Gweinidogion Cymru, ar y cyd â chymdeithasau llywodraeth leol, yn parhau i adolygu'r Cynllun ac yn ystyried a ddylid ei ail-lunio.